**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2017 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2 o'r gloch y prynhawn.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd: | |
| D MacRae (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A M Jones | Cyngor Gwynedd |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| D Taylor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| J Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); K Finch (Trysorydd): G Owens (Dirprwy Glerc); S Forrest (Pennaeth Gwasanaethau Cyfrifyddiaeth a'r Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); M Jones (Swyddfa Archwilio Cymru); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU:

| | |
|---|---|
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 12 MEDI 2016

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi 2016 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

I ateb cais gan Mark Jones o Swyddfa Archwilio Cymru, cytunodd yr aelodau i newid trefn yr agenda felly cafodd yr eitem ar y llythyr archwilio blynyddol ei ddwyn ymlaen.

4 LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL

4.1 Cafodd y llythyr archwilio blynyddol ei gyflwyno i'r aelodau gan Mark Jones o Swyddfa Archwilio Cymru. Cadarnhawyd bod yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'i holl gyfrifoldebau mewn perthynas ag adrodd ariannol a defnyddio adnoddau, a bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol yn eu lle i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau.

4.2 Atgoffwyd yr aelodau fod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar archwilio'r datganiadau ariannol, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a'r ATA yn llawn yn y cyfarfodydd ym mis Medi, wedi nodi materion yn ymwneud â chynnal a chadw'r gofrestr asedau a hefyd ambell fater yn ymwneud â rhoi cyfrif am ei holl incwm a gwariant yn ei brif ddatganiadau. Gwnaethpwyd gwaith ychwanegol gan Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn datrys y materion hyn ac felly ychwanegwyd ffi o £15,500 at amcangyfrif y ffi wreiddiol, sef £34,500 a gafodd ei nodi yn y cynllun archwilio blynyddol ar gyfer 2015-16. Cafodd Mr Jones ei herio gan yr aelodau ynglŷn â'r ychwanegiad hwyr hwn i ffioedd y Swyddfa a rhoddodd Mr Jones ragor o wybodaeth am baramedrau'r graddfeydd ffioedd ar gyfer awdurdodau tân ac achub, sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Ffioedd 2016-17, - dogfen a gyhoeddwyd gan y Swyddfa.

4.3 **PENDERFYNWYD nodi'r llythyr archwilio blynyddol, a gyhoeddir ar wefan yr Awdurdod ac ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.**

5 DANGOSYDDION DARBODUS, STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, Y STRATEGAETH FUDDSODDI A'R POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW

5.1 Roedd yr adroddiad yn rhoi'r dangosyddion darbodus, strategaeth rheoli'r trysorlys, y strategaeth fuddsoddi a pholisi darpariaeth isafswm refeniw 2017/18 i'r Aelodau. Tasg y Pwyllgor Archwilio oedd sicrhau craffu effeithiol ar strategaeth rheoli'r trysorlys a'r polisïau, a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub ar sail ei ganfyddiadau. Aeth Ms Forrest â'r Aelodau drwy'r adroddiad, gyda chymorth cyflwyniad manwl, ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

5.2 Cafodd yr aelodau wybod bod archwiliad mewnol o waith rheoli'r trysorlys wedi canfod risg i Gyngor Bwrdeistref Sirol (CBS) Conwy o ran y ffaith nad oedd y polisi esgeuluster proffesiynol yn ymorol am golledion wrth ddelio ag arian trydydd partïon, fel Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, nodwyd bod CBS Conwy yn cynnig diwygio'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth sydd yn ei le gyda'r Awdurdod Tân ac Achub i gynnwys amod y 'bydd CBS Conwy yn dangos diwydrwydd dyladwy wrth reoli cronfeydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a chyfrifoldeb yr Awdurdod Tân ac Achub fydd unrhyw golledion a geir oherwydd methiannau banciau/twyll ariannol/llygredd ac ati, oni bai fod modd profi bod CSB Conwy wedi bod yn esgeulus wrth reoli'r arian hwnnw'. Nodwyd hefyd fod y risg i'r Awdurdod Tân ac Achub, petai'n cytuno i'r newid, yn isel gan fod gan CBS Conwy hanes rhagorol ac mae bob amser yn rheoli'r cronfeydd hynny o fewn y strategaeth a gymeradwyir gan yr Aelodau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

5.3 Tynnwyd sylw'r aelodau at y ffaith fod CBS Conwy wedi adnewyddu ei gontract ar gyfer gwasanaethau bancio am y tair blynedd nesaf a bod hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng CBS Conwy ac ATAGC.

5.4 Roedd yr aelodau'n falch o nodi fod grŵp benthyca (rhoi a chael) rhwng awdurdodau yng Ngogledd Cymru yn mynd i gael ei sefydlu fel rhan o'r mentrau gweithio ar y cyd rhwng cyrff y sector cyhoeddus; bydd y grŵp yn arbed ar ffioedd broceru a bydd yn lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â rhoi a chael benthyciadau.

5.5 **PENDERFYNWYD cymeradwyo pob un o'r pedair elfen allweddol yn yr adroddiad a'r argymhellion sydd ynddynt, ac argymell y rhain i'r Awdurdod Tân ac Achub:**

**(i) rhestr o ddangosyddion darbodus sydd eu hangen gan God Ariannol CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol;**
**(ii) strategaeth rheoli'r trysorlys yn amlinellu'r strategaeth i'w dilyn mewn perthynas â benthyca byrdymor a hirdymor ar gyfer 2017/18 yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys;**
**(iii) strategaeth i'w dilyn mewn perthynas â buddsoddi arian yr Awdurdod Tân ac Achub;**
**(iv) y polisi darpariaeth isafswm refeniw;**
**(v) hefyd, cymeradwyo'r newid i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth â CBS Conwy fel y nodir yng nghofnod 5.2.**

6 STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2017-2020

6.1 Fe wnaeth Keith Williams o Archwilio Mewnol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gyflwyno'r strategaeth archwilio mewnol i'r Awdurdod ar gyfer 2017-20. Nodwyd y bydd adroddiad blynyddol ar waith a wnaed yn 2016/17 yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod ym mis Medi, ynghyd â chynllun gwaith o archwiliadau i'w cyflawni yn 2017/18.

6.2 **PENDERFYNWYD nodi a derbyn y strategaeth archwilio mewnol fel y'i cyflwynwyd.**

7 DIFFYG YN Y GRONFA BENSIWN LLYWODRAETH LEOL

7.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i ddefnyddio'r cyfleuster i fenthyca arian yn dreiglol i ariannu, ymlaen llaw, y diffyg sy'n ddyledus ar gyfer y tair blynedd ariannol 17/18, 18/19 a 19/20. Rhagwelid y bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i arbed hyd at £138,600 dros y tair blynedd nesaf.

7.2 Mae'r Awdurdod wedi cael canlyniadau'r gwerthusiad actiwaraidd rhagarweiniol am y tair blynedd nesaf, a chyfanswm y diffyg yw £2,302,000. Mae Cronfa Bensiwn Clwyd wedi hysbysu'r Awdurdod Tân ac Achub y bydd, drwy dalu'r diffygion yn gynharach, yn arwain at arbedion ar daliadau llog sy'n ddyledus ar gyfraniadau'r diffygion. Os telir y tair blynedd yn llawn yn Ebrill 2017, byddai'r arbedion hyd at £138,600.

7.3 Nodwyd bod yr Awdurdod ar hyn o bryd yn gallu benthyca arian drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn dreiglol ar sail chwe mis, a hynny ar gyfradd is na'r canran cynilon a gynigir gan Gronfa Bensiwn Clwyd. Cadarnhawyd felly y byddai hyn yn fanteisiol i'r Awdurdod Tân ac Achub. Mae yna risg y gallai'r cyfraddau llog godi yn y dyfodol felly doeth fyddai adolygu'r sefyllfa hon ar adeg yr adolygiad actiwaraidd llawn nesaf.

7.4 Roedd yr aelodau'n croesawu'r adroddiad a oedd â'r posibilrwydd o arbed swm mawr o arian i'r Awdurdod dros dair blynedd. Holodd yr aelodau a fyddai'r dull hwn yn addas ar gyfer meysydd cyllidebol eraill o'r Awdurdod er mwyn gwneud arbedion.

7.5 **PENDERFYNWYD cymeradwyo, mewn egwyddor, dalu lwmp-swm y diffygion sy'n ddyledus ar gyfer y tair blynedd nesaf yn Ebrill 2017, gan olygu hyd at £138,600 dros y tair blynedd ariannol nesaf.**